Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Babanod Llanfairfechan
# Ffordd Y Pentref
# Llanfairfechan
# Conwy
# LL33 0PA

**Dyddiad yr arolygiad:  Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/01/2014**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Babanod Llanfairfechan, ysgol wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru, yng nghanol pentref Llanfairfechan yn Sir Conwy.

Yn ystod yr arolygiad roedd 39 o blant meithrin rhan amser a 102 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ers yr arolygiad blaenorol.

Mae rhai pynciau, neu agweddau ohonynt, yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill trwy gyfrwng y Saesneg. Yn unol â pholisi'r ysgol, caiff rhieni'r disgyblion ddewis rhwng dysgu'r Gymraeg fel ail iaith neu iaith gyntaf ar gyfer eu plant.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod o gartrefi lle mae Saesneg yn brif iaith cyfathrebu ac mae bron pob disgybl yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Daw bron pob un o'r disgyblion o gefndir ethnig Gwyn Prydeinig.

Daw'r disgyblion o gefndiroedd amrywiol gydag ystod eang o gyrhaeddiad wrth gychwyn yn yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae gan 16% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 19% o ddisgyblion, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref, 2007. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2008.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Babanod Llanfairfechan yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,923 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £14,575 a'r lleiafswm yw £3,230. Mae Ysgol Babanod Llanfairfechan yn safle 42 o'r 58 o ysgolion cynradd yng Nghonwy o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- safonau ymddygiad yn uchel;
- bron pob un o'r disgyblion yn foesgar ac yn gwrtais ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu;
- rhan fwyaf o'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion wedi'u symbylu ac yn dangos diddordeb a bod staff cymorth o ansawdd da yn cefnogi dysgu'n effeithiol; a bod
- darpariaeth effeithiol ar gyfer hybu lles ac mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd dysgu gofalgar a chefnogol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar les disgyblion a gwella safonau;
- holl aelodau staff yn deall eu rolau'n glir, yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio'n llwyddiannus fel tîm;
- arweinwyr yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol;
- yr holl athrawon yn cael eu cynnwys yn effeithiol mewn gweithgareddau gwella'r ysgol sy'n gwella deilliannau disgyblion; a bod
- ystod dda o bartneriaethau'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at les a datblygiad medrau disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni eu llawn botensial

A2 Gwella ymhellach ddatblygiad medrau sillafu Saesneg disgyblion

A3 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws yr holl feysydd dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion wrth ddechrau yn yr ysgol islaw'r cyfartaledd, yn enwedig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol. Yn gyffredinol, mae'r safonau gwaith cyfredol yn dangos cynnydd da yn safonau'r medrau ar draws yr ysgol.

Gall llawer o ddisgyblion ddwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda a gall y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn gymhwyso'u dealltwriaeth o gysyniadau mewn sefyllfaoedd newydd. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu'r medrau ehangach sydd eu hangen i'w paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi. Maent yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Maent yn datblygu ystod eang o eirfa briodol yn y ddwy iaith ac mae'r rhan fwyaf yn eu defnyddio'n glir a chywir wrth siarad am eu gwaith. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn hyderus yn y ddwy iaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Mae bron pob un o ddisgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn ystyrlon, gyda rhugldер a mynegiant clir a dealltwriaeth dda. Maent yn darllen ystod eang o destunau yn y Saesneg a'r Gymraeg. Defnyddiant eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth a'i chyflwyno mewn modd diddorol. Mae llawer yn defnyddio eu medrau trawsieithu'n hyderus wrth wneud gwaith ymchwil.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae medrau sillafu yn dda yn y Gymraeg, ond ar adegau yn y Saesneg mae medrau sillafu ychydig o ddisgyblion yn anghyson. Mae llawysgrifen wedi'i ffurfio'n dda a chaiff gwaith ei gyflwyno'n ddestlus.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen o rifau ac o werth lle yn dda. Wrth adio cyfres o rifau ac wrth ysgrifennu rhai ffeithiau am rifau penodol, maent bron i gyd yn darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau gyda chywirdeb cynyddol. Maent yn dwyn i gof ffeithiau mathemategol yn gyflym a chywir ac yn adnabod patrymau mewn cyfres o rifau. Mae disgyblion mwyaf hyfedr blwyddyn 2 yn egluro'u strategaethau gwaith pen yn glir ac yn dyblu a haneru rhifau yn rhwydd. Dangosant ddealltwriaeth dda o werth cymharol gwahanol rifau ac, erbyn blwyddyn 2, mae'r

rhan fwyaf yn defnyddio prosesau adio, tynnu a lluosi'n effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn gyson ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y pynciau. Mae'r holl ddisgyblion yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymateb yn frwdfrydig i'r tasgau a gyflwynir iddynt.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da, ond nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyrraedd eu llawn botensial.

Yn 2013, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Saesneg a'r Gymraeg, mewn datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd ddeilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol ond yn is mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg.

O gymharu â pherfformiad ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r tueddiadau yn bositif iawn o gymharu ag ysgolion tebyg. Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn ar merched.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hollol ddiogel yn yr ysgol ac yn medru troi at y pennaeth neu unrhyw aelod o staff yr ysgol am gyngor a chymorth. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at fyw'n iach, bwyta diet iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n dda yn annibynnol ac o dan gyfarwyddyd oedolion.

Mae cyngor yr ysgol a'r pwyllgor eco wedi'u sefydlu'n dda, ac maent yn deall eu rolau'n glir iawn. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr at benderfyniadau yn yr ysgol ac mae'r aelodau yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif; er enghraifft maent yn gwasanaethu fel ffrindiau i eraill ar iard yr ysgol.

Mae'r canran presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru gyfan, ond roedd yn uwch na chyfartaledd y teulu cyn hynny. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn llwyddiannus mewn ystod o weithgareddau yn lleol a thu hwnt. Mae hyn yn eu paratoi yn dda mewn medrau bywyd a medrau cymdeithasol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yn ymateb yn briodol i ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhaglenni ymyrraeth yn galluogi'r disgyblion i gaffael y medrau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach. Gwna'r ysgol ddefnydd da o staff cynorthwyol i gefnogi llythrennedd a rhifedd.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda ac yn sicrhau bod cydlyniad ym mhrofiad y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion i gywain a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r ysgol yn creu ethos Cymreig llwyddiannus ac yn cynnig cyfleoedd amrywiol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg. Mae strategaethau a threfniadau'r ysgol yn sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn un o gryfderau'r ysgol ac wedi ei gwreiddio'n ddwfn ym mywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd gofalu am y byd ac edrych ar ôl yr amgylchedd. Mae'r ysgol hefyd yn rhoi cyfle i'r disgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth am rannau eraill o'r byd a diwylliannau eraill drwy eu cyswllt ag ysgolion tramor.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes ac maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau a strategaethau i ennyn diddordeb disgyblion. Lle mae'r addysgu yn dda yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r disgyblion yn elwa ar wersi sy'n cynnig y lefel briodol o gymorth a her sy'n cael eu cyflwyno'n fywiog a brwdfrydig. Mae'r strategaethau addysgu, fel technegau holi effeithiol, yn helpu disgyblion i ddatblygu medrau meddwl da a gwella eu cyfranogiad a'u cynnydd mewn gwersi.

Yn yr ychydig o wersi lle nad yw'r addysgu mor llwyddiannus, mae rhediad y wers yn arafach, ac nid yw'r disgyblion bob amser yn deall pob tasg yn ddigon da er mwyn iddynt symud ymlaen â'u dysgu.

Mae sustemau asesu'r ysgol yn gynhwysfawr iawn. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o brofion safonol a systemau tracio i fesur cynnydd ac i ddarparu cefnogaeth briodol ar gyfer disgyblion sy'n tangyflawni.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi ymsefydlu'n dda yng ngweithdrefnau'r ysgol. Mae'r strategaethau yn helpu disgyblion i osod targedau, deall pa mor dda y maent yn cyflawni eu gwaith a nodi'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r

disgyblion yn cael eu cynnwys yn gynyddol wrth asesu, cytuno meini prawf a gosod targedau personol ac mae hyn yn eu helpu i ennill dealltwriaeth dda o'u cryfderau a'u gwendidau.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn rhoi sylw da i gynnydd a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae perthynas dda iawn yn bodoli rhwng staff a disgyblion ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at yr ethos cadarnhaol sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd yn dda.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'n hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol ac mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cymorth proffesiynol pan fo angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae'r athrawon yn nodi anawsterau dysgu'r disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth effeithiol ac amserol. Gwna staff cymorth gyfraniad cadarnhaol iawn at ddysgu'r disgyblion hyn. Mae athrawon yn adolygu cynnydd disgyblion yn rheolaidd ac maent hefyd yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys wrth osod ac adolygu eu targedau unigol. Mae athrawon yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol a chartrefol iawn yn yr ysgol lle caiff disgyblion, staff a rhieni eu parchu a'u croesawu. Mae'r ethos yn seiliedig ar bolisïau, cynlluniau a gweithdrefnau sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol. Mae'r polisïau hyn wedi eu mabwysiadu drwy ymgynghori gyda rhanddeiliaid ac maent yn sylfaen i weithdrefnau'r ysgol sy'n hysbys i bawb.

Mae safle ac amgylchedd yr ysgol yn un symbylus, lliwgar a deniadol iawn. Ceir amrywiaeth helaeth o adnoddau o ansawdd da ac fe ddefnyddir yr holl adnoddau'n effeithiol ar gyfer dibenion y disgyblion. Mae'r arddangosfeydd o waith a chyfrifoldebau'r disgyblion o safon uchel gyda'r gwaith celf ar hyd yr ysgol yn nodedig. Mae'r safle cyfan wedi cael ei ddatblygu'n ddiweddar gan ddilyn argymhellion y disgyblion, a chaiff gardd yr ysgol ei defnyddio i dyfu llysiau. Mae'r holl amgylchedd yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer chwarae a dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer cynnal safonau, darparu ar gyfer y Gymraeg a sicrhau lles y disgyblion. Llwydda i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion. Mae wedi creu tîm effeithiol, gyda chyfeiriad a phwrpas i fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae cyfrifoldebau clir gan bob aelod o'r staff a gweithiant yn dda â'i gilydd a gyda'r pennaeth. O ganlyniad, mae dull cydweithredol o arwain ar draws yr ysgol. Mae strwythurau rheoli clir a chyfarfodydd rheolaidd yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cyfrannu'n adeiladol at flaenoriaethau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu at ddatblygiad yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn dylanwadu'n briodol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Sefydlwyd y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus ac fe roddir sylw da i bwysigrwydd llythrennedd a datblygu medrau meddwl.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddedig i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae ganddo wybodaeth ymarferol dda am ddata perfformiad yr ysgol a'i chryfderau, ac mae'n cynnig lefel briodol o her. Mae'n gweithredu fel ffrind gwybodus a beirniadol i dîm arweinyddiaeth yr ysgol, ac mae'n cyfrannu'n effeithiol at y broses hunan arfarnu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn effeithiol ac yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau. Mae'r staff cyfan yn ymwybodol o bwrpas ac effaith hunanarfarnu ac maent yn manteisio ar gyfleoedd i gyfrannu'n addas i adroddiad hunanarfarnu'r ysgol. Caiff rhieni a'r disgyblion gyfleoedd rheolaidd i gyfrannu at y broses.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen ddefnyddiol a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau disgyblion a gwella darpariaeth. Mae'r ysgol yn defnyddio sawl ffynhonnell o dystiolaeth i gefnogi barnau'r adroddiad, gan gynnwys dadansoddiad manwl o ddata perfformiad, arsylwadau gwersi a thystiolaeth yn deillio o archwilio gwaith disgyblion. Mae athrawon yn monitro safonau cyflawniad ac ansawdd addysgu a dysgu yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi bod yn effeithiol o ran sicrhau gwelliant dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r effaith ar safonau a lles yn amlwg.

Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o feysydd i'w datblygu a nodwyd yn yr hunanarfarniad. Mae ffocws priodol ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen waith effeithiol sy'n llywio gwaith yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd yn ofalus ac mae pob aelod o staff yn deall eu rôl wrth sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid sy'n cael effaith fuddiol ar les a chyrhaeddiad ddisgyblion. Cyfranna partneriaethau'n dda at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella'r deilliannau er budd y disgyblion. Mae cysylltiadau cryf iawn gyda'r rhieni sy'n dylanwadu ar lwyddiant y disgyblion a'r ysgol.

Mae cysylltiadau agos â'r gymuned leol a'r eglwys, ac mae'r rhain yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd profiadau disgyblion ac maent yn helpu i ffurfio cysylltiad cymunedol agos. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad a phrofiadau dysgu'r disgyblion.

Mae cysylltiadau cryf wedi cael eu meithrin gyda grwpiau cyn-ysgol i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n effeithiol i'r dosbarth meithrin. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos ag ysgolion eraill hefyd i rannu profiadau a chyfnewid arferion.

Mae'r ysgol hefyd yn arwain cysylltiadau effeithiol iawn gydag ysgolion eraill yn y teulu, ac mae hyn wedi arwain at welliannau yn safonau llythrennedd disgyblion. Mae'r cydweithio hwn wedi gwella'r ddarpariaeth a helpu i ddatblygu strategaethau ar draws yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda. Mae'n blaenoriaethu ac yn monitro gwariant yn ofalus, ac yn darparu adnoddau priodol ar gyfer blaenoriaethau'r ysgol. Mae amrywiaeth dda o adnoddau dysgu yn yr ysgol. Mae safonau'r adeiladau yn dda, a chânt eu rheoli'n effeithiol gan yr arweinwyr. Mae'r ysgol yn defnyddio'i staff addysgu a'i staff cymorth yn llwyddiannus er mwyn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion ac i gyflwyno pob agwedd ar y cwricwlwm.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn nodi ac yn diwallu anghenion datblygu staff yn unol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn yn cael eu rheoli'n dda. Mae'r ysgol hefyd wedi sefydlu cymunedau ddysgu broffesiynol gydag ysgolion eraill i gynllunio datblygiad medrau llythrennedd a rhifedd.

O ystyried y defnydd effeithiol a wna'r ysgol o'i chyllid, y lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad a'r cynnydd da sy'n cael ei wneud gan rhan fwyaf o'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae’r asesiad gwaelodlin o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sydd islaw hynny a ddisgwylir fel arfer ar gyfer disgyblion o oed tebyg, yn enwedig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol.

Yn 2013, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a gyflawnodd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Saesneg a’r Gymraeg, mewn datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion a Chymru.  Roedd cyfran y disgyblion mwy galluog a gyflawnodd ddeilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn datblygiad mathemategol ac mewn medrau personol a chymdeithasol ond yn is mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg.

O gymharu â pherfformiad ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.  Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae’r tueddiadau yn bositif iawn o gymharu ag ysgolion tebyg.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn gyffredinol, mae’r merched wedi perfformio’n well na’r bechgyn o ran y deilliant disgwyliedig. Cyflawnodd y merched gryn dipyn yn well na bechgyn o ran y deilliant uwch mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae’r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio’n dda o gymharu â pherfformiad disgyblion nad oes hawl ganddynt i gael prydau ysgol am ddim.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 18 | 10 | 7 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 56% | 39% | 6% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 18 | 13 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 18 | 10 | 7 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 56% | 39% | 6% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 18 | 11 | 5 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 18 | 4 | 12 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 22% | 67% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 18 | 9 | 6 | 1 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 50% | 33% | 6% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 18 | 9 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 17 | 6 | 8 | 0 | 0 | 3 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 35% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 17 | 11 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 65% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 17 | 9 | 6 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 53% | 35% | 6% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 18 | 12 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 15 | 5 | 5 | 0 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 33% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 18 | 8 | 6 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 44% | 33% | 22% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 18 | 10 | 7 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 56% | 39% | 6% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 18 | 8 | 6 | 3 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 33% | 17% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 17 | 6 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 35% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 16 | 3 | 7 | 2 | 0 | 4 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 19% | 44% | 12% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 18 | 11 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 61% | 33% | 6% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 18 | 10 | 5 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 56% | 28% | 6% | 0% | | |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Janet Wyn George | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eleri Owen | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.